

# Caerdydd. Creu Chwedlau.



Cymru  
Wales

Mae Caerdydd, prifddinas  
Cymru, yn lle rhagorol.

Does dim rhaid i chi gymryd  
ein gair ni am hynny.

Dyfarnwyd Cymru fel un o'r 10 gwlad  
sy'n rhaid ymweld â nhw gan *Rough  
Guides* a *Lonely Planet*. Yn ôl arolwg  
diweddar gan yr Undeb Ewropeaidd  
fe ddyfarnwyd Caerdydd fel y drydedd  
brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.



Yr hyn sy'n gwneud Caerdydd  
mor arbennig yw'r amrywiaeth o  
ddiwylliant hen a newydd, y llefydd  
bwyta bywiog, y digwyddiadau mawr  
a'r wlad hardd o'i hamgylch.



## 1-Y Celfyddydau a Diwylliant

Mae Caerdydd yn llawn i'r ymylon o ddiwylliant. Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn gartref i'r casgliad mwyaf o gelf Argraffiadol y tu allan i Baris, yn ogystal â gweithiau sy'n ymestyn dros 500 mlynedd o hanes celf. Mae Stori Caerdydd yn adrodd hanes y ddinas o tua 1300 hyd at heddiw. Os am ychydig o ddiwylliant gwahanol, yna ewch draw i Ganolfan Celfyddydau Chapter yn Nhreganna – lle sy'n fwrlwm o gelfyddyd ffilm a theatr. Dyma le sy'n gyforiog o greadigrwydd.



## 2–Siopa

Mae bron i gilometr o arcedau i'w mwynhau yng nghanol y ddinas, a'r rheiny'n dyddio'n ôl i oes Fictoria a'r cyfnod Edwardaidd. Ynddyn nhw gallwch ddod o hyd i siopau annibynnol, caffis teuluol, a *boutiques* deniadol. Ymysg yr uchafbwyntiau mae Hobos, ar gyfer prynu dillad *vintage*, Madame Fromage am unrhyw beth yn ymwneud â chaws a siop recordiau hynaf y byd, Spillers Records, ar gyfer ffans cerddorol. Ceir siopau sy'n gwerthu sawl brand byd enwog yng nghanolfan siopa Dewi Sant, sydd brin bum munud o gerdded o'r arcedau.



### 3–Bae Caerdydd

Dyma ran o'r ddinas lle gwelwyd y datblygiadau mwyaf yn ystod y 1900au. Roedd y rhan fwyaf o lo De Cymru yn cael ei allforio ar draws y byd o'r ardal hon. Bellach ailgynlluniwyd yr ardal gyfan fel encil ar lan y dŵr sydd ymhell o brysurdeb canol y ddinas. Yma, mae Canolfan Mileniwm Cymru sydd ar sawl cyfrif yn debyg iawn i'r Tŷ Opera yn Sydney. Mae'r Ganolfan, sy'n gampwaith pensaernïol, yn cynnal sioeau, perfformiadau a digwyddiadau o bwys. Gerllaw'r Ganolfan mae'r Senedd, cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Pierhead, yn ogystal â'r Eglwys Norwyaidd, ble cafodd Roald Dahl ei fedyddio.





#### 4–Castell Caerdydd

Gyda'i wreiddiau yn y cyfnod Rhufeinig, mae Castell Caerdydd yn parhau yn galon i'r ddinas. Fe'i trawsnewidiwyd yn llwyr yn ystod y 19eg ganrif, pan addurnwyd yr ystafelloedd mewn arddull Gothig addurniadol gan William Burges. Gallwch gerdded o gwmpas yr adeilad i weld y celfi aur a'r marmor moethus, cerfiadau blodeuog a'r addurniadau trawiadol. Ar y llaw arall, gallwch ymweld â'r Plasty, preswylfa swyddogol Arglwydd Faer Caerdydd. Beth am fynd ar daith o gwmpas yr adeilad rhestredig Gradd II cofiadwy hwn? A chofiwch alw draw i fwynhau te prynhawn bendigedig ar ddiwedd y daith.

## 5–Blas ar fwyd

Mae'r ddinas yn cynnig amrywiaeth o brofiadau bwyta ar gyfer pob chwaeth. Ewch i Heol y Ddinas (City Road) yn y Rhath neu ewch i Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (Cowbridge Road East) yn Nhreganna i fwynhau bwyd rhyngwladol go iawn am bris teg. Ymysg yr uchafbwyntiau eraill mae bwyty .cn yn gweini bwyd Tsieineaidd tra bod Mezza Luna yn gyfle i fwynhau bwyd o'r Dwyrain Canol. Dewis arall fyddai mynd draw i Lôn y Felin (Mill Lane) yng nghanol y ddinas i fwynhau coctel, neu beth am alw draw i dafarn sy'n eiddo i Tiny Rebel (bragdy bach enwog ger Caerdydd) yn Stryd Womanby. Peidiwch ag anghofio ymweld â Marchnad Ganolog Caerdydd a'r marchnadoedd penwythnos yn Heol Eglwys Fair (St. Mary Street) am rywbeth bach i fwyta i'ch cadw i fynd!